Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2022-23 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022.

Tachwedd 2022

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022. Fe'i paratowyd ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad i ganfod i ba raddau:

- y mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2022-23;
- y mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; ac
- y mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd ein targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Twitter @ArchwilioCymru

This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **4** |
| **Cyflawni gwaith archwilio** | **6** |
| **Rhedeg y busnes** | **13** |
| **Adrodd ar ein perfformiad** | **18** |
| **Atodiadau** | |
| 1 Gwaith archwilio lleol | 26 |
| 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol | 27 |
| 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol | 30 |

# Rhagair

Roedd cyhoeddi Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27 ym mis Mehefin yn garreg filltir wych i Archwilio Cymru. Trwy ei ddatblygiad gwnaethom herio ein hunain fel sefydliad, gofyn am graffu gan eraill a chael cipolwg gwerthfawr i'n helpu i nodi cyfeiriad a ffocws clir ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma tuag at gyflawni ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn erbyn ein strategaeth pum mlynedd. Yn yr Adroddiad, rydym yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022 tuag at gyflawni ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'n meysydd ffocws cysylltiedig, ac ar gyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae ansawdd archwilio bob amser yn faes allweddol i ni ganolbwyntio arno, ond yn enwedig dros y cyfnod adrodd gan fod cwmnïau blaenllaw yn fyd-eang wedi bod yn wynebu'r dirwyon uchaf erioed am ddiffygion yn ansawdd eu gwaith archwilio. Rydym wedi buddsoddi yn ein swyddogaeth cymorth technegol ac wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein dulliau archwilio trwy weithredu safonau newydd sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad. Rydym yn cefnogi'r dulliau newydd hyn gyda llwyfannau TG pwrpasol ac yn darparu'r rhaglenni dysgu a datblygu sydd eu hangen ar ein timau archwilio i ddefnyddio'r offer a'r dulliau hyn i gyflawni safonau uchel o ansawdd archwilio.

Ochr yn ochr â chanolbwyntio ar ansawdd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Archwilio Cymru yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae effeithiau costau byw, y pandemig a digwyddiadau byd-eang yn golygu ein bod ni'n byw gyda chefnlen barhaus o ansicrwydd, ond ni waeth pa mor heriol yw'r cyfnod, rydym yn awyddus i Archwilio Cymru fod yn sefydliad y mae'n staff yn falch o weithio ynddo a lle rydym yn gwneud gwaith o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth. Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Lesiant, a ddatblygwyd gan staff o bob rhan o'r sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i greu rhywbeth sy'n ystyrlon iddyn nhw a'u cydweithwyr, gyda chanlyniadau a mesurau llwyddiant clir.

Roeddem hefyd yn falch o gyhoeddi ein Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026, sy'n nodi cyfres newydd o amcanion uchelgeisiol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac sy'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr delfrydol; cynyddu amrywiaeth ein gweithle; sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn gynhwysol ac yn darparu diwylliant yn fewnol y gall pawb ffynnu ynddo.

Rydym yn falch o adrodd bod bron pob darn o waith a gynlluniwyd naill ai wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo yn ôl y cynllun. Mae hyn yn glod i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled ein staff a'r cydweithrediad a gawn gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio, ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm hwn am weddill y flwyddyn.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cyflawni gwaith archwilio

## Gwaith craidd

Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus

Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**

Cymeradwyo tua **£1.5 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd

Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

1 Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau ein gwaith archwilio cyfrifon ar gyfer cyfrifon 2021-22. Nid ydym wedi gallu cyrraedd ein targed o gwblhau'r holl archwiliadau Llywodraeth Leol erbyn diwedd mis Hydref am nifer o resymau gan gynnwys cyflwyno cyfrifon drafft yn hwyr gan rai Cyrff Archwilio ac ansicrwydd parhaus ynghylch y seilwaith cyfrifo mewn cyrff cyhoeddus. Cwblhawyd ein gwaith o archwilio cyrff y GIG ym mis Mehefin, heblaw am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gafodd ei ohirio oherwydd materion a nodwyd yn ystod ein gwaith, ac erbyn diwedd mis Medi, roedd y rhan fwyaf o archwiliadau Llywodraeth Ganolog 2021-22 wedi'u cwblhau. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio a'r math o waith archwilio a wnaed yn **Atodiad 1**.

2 Mae ein rhaglen waith genedlaethol yn cadw hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, blaenoriaethau, a materion pryder cyhoeddus neu seneddol wrth iddynt godi. Yn gynharach eleni gwnaethom lansio ymgynghoriad i helpu i gynllunio rhaglen waith ddangosol tymor canolig, gan gynnwys gwaith newydd a fydd yn gwneud cynnydd drwy weddill 2022-23. Pan lansiwyd yr ymgynghoriad, roedd effaith y gwrthdaro yn Wcráin a phwysau costau byw yn dechrau dod i'r amlwg. Mae ein hastudiaeth llywodraeth leol ar fynd i'r afael â thlodi yn rhoi cyfle i ddechrau myfyrio ychydig ar bwysau costau byw. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallem ddefnyddio chwyddwydr archwilio yn y ffordd orau i edrych ar ymateb gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i anghenion ffoaduriaid o Wcráin.

3 Darperir rhestr gyfoes o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol sydd wedi'u cwblhau, yn mynd rhagddynt neu y bwriedir eu dechrau yn ystod gweddill 2022-23 yn **Atodiad 2**.

4 Mae ein gwaith wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) wrth iddynt ystyried defnyddio adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn **Atodiad 3** rydym yn rhoi mwy o fanylion am sut yr ydym wedi cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol yn hanner cyntaf 2022-23, gan gynnwys rhannu yr hyn a ddysgom wrth archwilio gyda phwyllgorau eraill y Senedd.

## Camau gweithredu â blaenoriaeth

5 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau strategol, gwnaethom nodi chwe cham gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio yn 2022-23. Crynhoir y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r rhain yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tabl canlynol.

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Datblygu ein model gweithredu ymhellach, gan gynnwys:<br>• sefydlu strwythurau gweithredu newydd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;<br>• ymwreiddio swyddogaeth ymchwil a datblygu newydd; ac<br>• egluro'r addasiadau angenrheidiol ar gyfer ein ffyrdd o weithio mewn byd ar ôl y pandemig. | Mae'r tîm Ymchwil a Datblygu newydd wedi ei recriwtio'n llawn ac mae'r tîm yn ein cefnogi yn ein huchelgais o ddarparu rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel. Dros y cyfnod adrodd mae'r tîm wedi:<br>• dod â gwaith sganio'r gorwel ynghyd o bob rhan o'r sefydliad i lywio meysydd posibl lle gall effaith ein gwaith ychwanegu gwerth;<br>• dadansoddi'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar y rhaglen waith; a<br>• chryfhau rhwydweithiau presennol ac adeiladu rhwydweithiau newydd gyda'r byd academaidd, melinau trafod a chyrff eraill i gasglu gwybodaeth at ei gilydd i helpu i lywio'r gwaith o gwmpasu prosiectau archwilio.<br><br>Yn dilyn dileu'r holl gyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru, rydym wedi mabwysiadu model gweithio hybrid ac wedi egluro sut yr oeddem yn disgwyl i'n timau archwilio weithredu. Mae timau wedi treialu gweithio mewn mannau cydweithredol, mewn lleoliadau gweithgaredd yn ein swyddfeydd rhanbarthol, mewn hybiau ac o gartref, gan ymweld â safleoedd cleientiaid dim ond pan fo'n briodol gwneud hynny.<br><br>Ym mis Mai, ein timau archwilio cyfrifon y GIG oedd y cyntaf i ddychwelyd i'n tair swyddfa ranbarthol; mae llwyddiant y cynlluniau treialu hyn yn llywio datblygiad y ffyrdd hybrid o weithio ac anghenion adeiladau swyddfeydd yn y dyfodol. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Datblygu ein rhaglen waith, i gynnwys y canlynol:<br>• nodi rhaglen fwy strategol tymor canolig, ystyried ein hymgynghoriad presennol a'n hymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg;<br>• ymgynghori ar newidiadau posibl i'n model ariannu;<br>• mabwysiadu'r safonau proffesiynol gorau, ac ymgorffori model rheoli ansawdd archwilio newydd; a<br>• datblygu ein hallbynnau archwilio i sicrhau eu bod yn atyniadol ac yn effeithiol. | Yn gynharach yn y flwyddyn lansiwyd ymgynghoriad ar raglen waith tymor canolig yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr adborth a gawsom yn gadarnhaol ar y cyfan a mynegwyd cefnogaeth i lawer o'r meysydd gwaith posibl a nodwyd.<br><br>Bydd ffurf y rhaglen hefyd yn cael ei dylanwadu gan ymatebion i'n hymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd ar gyfer 2023-24. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, rydym yn nodi cynigion i newid y ffordd y mae rhywfaint o'n gwaith yn cael ei ariannu, gyda'r bwriad y bydd hyn yn galluogi gwell hyblygrwydd i archwilio mwy o faterion trawsbynciol a system gyfan. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lansio ymgynghoriad ar ymestyn cwmpas y ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd â goblygiadau posibl o ran cynllunio a sicrhau adnoddau i'r rhaglen waith.<br><br>Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein dulliau archwilio trwy weithredu safonau newydd ar sail risg ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon – yn unol ag ISA (UK) 315; a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad – yn unol â safonau ansawdd INTOSAI. Mae'r dulliau archwilio diwygiedig hyn wedi'u cefnogi gan lwyfannau archwilio pwrpasol, a luniwyd gan ddefnyddio swyddogaeth Microsoft 365. Mae lansio'r dulliau a'r llwyfannau newydd hyn yn cael ei ategu gan raglenni dysgu a datblygu helaeth er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar ein timau archwilio i gyflawni safonau uchel ansawdd archwilio. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
| --- | --- |
| Datblygu prosesau rheoli gwybodaeth mwy effeithlon, hygyrch a, phan fo'n briodol, yn awtomatig, gan gynnwys gweithredu system rheoli amser ac adnoddau newydd. | Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed cynnydd ar waith i weithredu datrysiad meddalwedd newydd – 'Hubplanner' – i alluogi rheoli amser ac adnoddau yn gadarn ac yn effeithlon; bydd y system yn mynd yn fyw ar 31 Hydref 2022.<br><br>Rydym wedi cynnal ymarfer 'ailosod' i wirio a sicrhau cywirdeb ein proses o ddarparu adnoddau ar gyfer data ar gyflenwad a galw wrth i ni baratoi ar gyfer lansio'r system newydd. Roedd y data hyn hefyd yn llywio ein 'Cynllun Un Staff' newydd, y gall holl staff y Gwasanaethau Archwilio ei weld, i weld yr wybodaeth bresennol ar gynllunio prosiectau archwilio a sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio. |
| Datblygu elfen cyflawni archwilio ein cynllun gweithlu fel ei fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni ein rhaglen waith ac yn atgyfnerthu ein strategaeth dysgu a datblygu. | Mae ein Strategaeth Gweithlu Archwilio Cymru 2020-25 yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer ein staff – 'i ddatblygu gweithlu galluog ac amrywiol sy'n cael ei ysgogi i gyflawni ein diben a'n huchelgeisiau a gwireddu ein potensial llawn.' Mae gwaith wedi dechrau o fewn Gwasanaethau Archwilio i ddatblygu cynllun gweithlu a fydd yn ategu cyflawni'r uchelgeisiau hyn. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddylanwadu ar y drafodaeth am ddyfodol archwilio'r cyhoedd yn y DU ac ehangu ein mewnbwn i ddatblygiadau archwilio a chyfrifo proffesiynol eraill. | Rydym wedi gweithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU yn y Fforwm Archwilio Cyhoeddus (PAF) i rannu gwybodaeth a phrofiad. Dros y cyfnod adrodd rydym wedi:<br>• croesawu cydweithwyr o'r NIAO fel rhan o brosiect ar y cyd i ddatblygu dull archwilio newydd o gyfrifon ar gyfer 2022-23 a thu hwnt;<br>• rhannu'r hyn a ddysgwyd am ddatblygiadau mewn dulliau archwilio TG a sgiliau archwilio TG;<br>• rhannu profiadau, cynlluniau a blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar fesur effaith gwaith archwilio a chyfathrebu digidol; a<br>• thrafod ein priod ddiddordeb a swyddogaeth archwilio yn yr agenda 'sero net'.<br>Ymatebodd y PAF ar y cyd i ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar ddyfodol proffesiwn archwilio'r DU; rydym wedi cael cyfres o sgyrsiau â'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd y daw ansawdd gwaith Archwilio Cymru yn destun goruchwyliaeth gan bwyllgor o'r Senedd.<br>Rydym yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau sefydliad ac mae gennym aelodau o staff ar Baneli'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), gan gynghori ar bynciau gan gynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer y DU (LASAAC). |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Defnyddio technoleg a dadansoddeg data i barhau i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith archwilio, cynyddu ein heffaith, gwella ansawdd, a chynyddu ar yr un raddfa â disgwyliadau'r diwydiant. | Ym mis Ebrill eleni, roeddem yn dathlu bod ein **tîm** Dadansoddeg Data wedi bod yn gweithredu am bedair blynedd. Mae gwaith y **tîm** wrth wraidd ein hymgyrch i foderneiddio gwaith archwilio cyfrifon, gwella'r ffordd yr ydym yn arddangos gwybodaeth a chyfleu ein canfyddiadau archwilio i gyflawni ein strategaeth pum mlynedd.<br><br>Dros y cyfnod adrodd mae datblygiadau allweddol mewn dadansoddeg data wedi cynnwys:<br>• Archwiliad Cymorth Dadansoddeg (AAA) – cyfres o adnoddau i alluogi mynediad haws at ffynonellau data allanol; darparu delweddau defnyddiol ac awtomeiddio tasgau beichus ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon.<br>• adnodd rhyngweithiol i lywio asesiadau risg iechyd mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol; darparu mynediad at setiau data cyhoeddus a gwybodaeth gan asiantaethau'r GIG.<br>• Cynllun treialu data Fferylliaeth Gymunedol sy'n ymchwilio i setiau data fferylliaeth mawr a chymhleth i gael mewnwelediad, gan gynnwys chwilio am anghysonderau i helpu i nodi twyll posibl a meysydd cost uchel.<br>• treialu'n llwyddiannus 'Inflo Collaboration' mewn deg corff archwilio. Porth cydweithio digidol diogel i gasglu gwybodaeth archwilio, ceisiadau, ymatebion, a dogfennau i gyd mewn un lle.<br>• gwneud cynnydd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid perthnasol am y potensial ar gyfer gweithgaredd paru data newydd eraill. |

# Rhedeg y busnes

## Gwaith craidd

Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£23.4 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio

Cyflogi tua **290 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth

Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau

**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

6 Dros y chwe mis diwethaf, roeddem yn parhau i addasu'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan gefnogi ein staff i weithio'n hyblyg er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

7 Mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi gweithredu'n effeithiol drwy ddull hybrid, gan ddefnyddio cyfuniad o lwyfannau cyfarfod ar-lein a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

8 Y pwnc y buom yn canolbwyntio'n sylweddol arno dros y cyfnod adrodd yw penderfyniadau yn ymwneud ag anghenion adeiladau swyddfeydd a ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi gweithio i sicrhau ein bod yn cyflawni gwaith o ansawdd uchel yn effeithlon ac yn darparu amgylchedd gweithio a dysgu rhagorol gan roi gwerth uchel ar iechyd a llesiant ein staff a chyfrannu at ostwng ein heffaith amgylcheddol.

## Camau gweithredu â blaenoriaeth

9 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol, nodwyd pum cam gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer y ffordd yr ydym yn rhedeg y busnes yn 2022-23. Mae'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r rhain yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn cael ei grynhoi yn y tabl canlynol.

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Penderfynu beth fydd ein ffyrdd 'normal newydd' o weithio wrth i ni symud ymlaen i gyfnod adfer ar ôl y pandemig, ac wrth wneud hynny parhau i flaenoriaethu iechyd a llesiant parhaus staff Archwilio Cymru. | Fel sawl sefydliad, dangosodd ein profiad o'r pandemig nad yw llesiant yn dechrau ac yn gorffen yn ystod y diwrnod gwaith. Yn ystod y pandemig ac ers hynny, mae llawer o'n penderfyniadau ynghylch llesiant staff wedi eu harwain gan yr egwyddor 'hunan, teulu, gwaith' sy'n cydnabod bod gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod ein diwylliant yn y gweithle yn annog ymddygiadau cadarnhaol ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'n gweithwyr.<br><br>Gan adeiladu ar yr egwyddor hon, lansiwyd ein Strategaeth Lesiant ym mis Medi, a ddatblygwyd gan staff Archwilio Cymru o bob rhan o'r sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i greu rhywbeth a oedd yn ystyrlon iddyn nhw a'u cydweithwyr gyda chanlyniadau clir a mesurau llwyddiant.<br><br>Mae'r Strategaeth wedi'i chynllunio ar sail tair thema llesiant sydd wrth wraidd ein nodau ar gyfer Archwilio Cymru – Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu strategaeth pum mlynedd a ‘map ffordd’ ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol, gan gynnwys sicrhau:<br>• ymgysylltu â’r sefydliad cyfan ar ddatblygu’r map ffordd;<br>• camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth yn cael eu nodi a’u hymwreiddio mewn cynlluniau lefel uned fusnes a thîm ar draws y sefydliad;<br>• integreiddio ac alinio priodol â’n trefniadau rheoli risg a pherfformiad; a<br>• chysylltiadau clir rhwng y strategaeth ac amcanion y prosiect a’r perfformiad y cytunwyd arno ar gyfer unigolion. | Ym mis Mehefin cyhoeddwyd, Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27. Strategaeth newydd fentrus yw hon sy’n nodi ein gweledigaeth pum mlynedd i sbarduno gwelliant a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus Cymru wrth iddynt addasu i heriau a chyfleoedd byd sy’n newid.<br><br>Mae’r strategaeth yn cynnwys tri chonglfaen lle credwn fod angen i ni flaenoriaethu camau gweithredu os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau. Datblygwyd y meysydd y canolbwyntir arnynt a chanlyniadau bob un drwy gyfres o weithdai staff a gweithgareddau ymgysylltu ar draws y sefydliad cyfan; ynghyd ag adborth gan wahanol randdeiliaid allanol.<br><br>Mae’r camau gweithredu a’r gweithgareddau y mae angen i bob tîm yn Archwilio Cymru eu cyflawni o’u cymharu â’r conglfeini hyn wedi eu nodi a’u rhestru mewn cynlluniau busnes. Adroddir ar gynnydd i’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru drwy adroddiad perfformiad chwarterol integredig diwygiedig, sy’n dod â gwybodaeth perfformiad allweddol ynghyd ochr yn ochr â dadansoddiad o’n risgiau strategol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu sy’n cefnogi’r strategaeth. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion o ran swyddfeydd yn y dyfodol, er mwyn i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniad yn ddiweddarach yn 2022-23. | Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru achos busnes i adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i safle newydd yn weithredol o ddechrau 2023. Wedi hynny, cytunodd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru mewn egwyddor ar y cyllid y gofynnwyd amdano i gefnogi'r cam hwn. Mae'r gwaith o ymgysylltu â staff ar gynllunio'r mannau gweithio a chydlynu'r gwaith adeiladu a gweithgareddau cysylltiedig eraill yn parhau.<br><br>Wrth i ni barhau i esblygu ein ffyrdd hybrid o weithio ar ôl COVID rydym yn parhau i adolygu ein holl anghenion o ran swyddfeydd. Rydym wedi ymestyn y brydles ar ein swyddfa yng ngorllewin Cymru ac wedi bod yn treialu'r defnydd o Hwb yng ngogledd Cymru, ynghyd ag ailagor ystafell archwilio ar safle cleientiaid, i alluogi staff i weithio'n effeithiol ac yn hyblyg. |
| Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy yn ein holl brosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys:<br><br>• ipan fyddwn y gweithredu ein trefniadau teithio a chynhaliaeth diwygiedig i staff;<br>• wrth arbrofi gyda ffyrdd newydd, mwy effeithlon, a chlyfrach o weithio, a'u gwerthuso; ac<br>• wrth benderfynu ar ein map llwybr i symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. | Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n rhedeg y busnes ac yn gwneud penderfyniadau. Rydym wedi canolbwyntio ar gymhwyso'r egwyddor wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau allweddol; gan gynnwys ein strategaeth pum mlynedd newydd, ein trefniadau teithio a chynhaliaeth diwygiedig, a'n hanghenion o ran swyddfeydd sy'n esblygu, gan gynnwys y penderfyniad i adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd, gweithred a fydd yn ei thro yn cefnogi ein dyhead i gyflawni allyriadau sero net.<br><br>Gweithredwyd ein trefniadau teithio a chynhaliaeth newydd o 1 Ebrill 2022 ymlaen ac roeddent yn cynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu cynllun teithio sefydliadol. Bydd y cynllun hwn yn edrych ar ffyrdd o leihau'r angen i deithio ac yn datblygu a hyrwyddo defnydd o deithio cynaliadwy i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chefnogi ein hymrwymiad i fod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2030. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2022-23 |
|---|---|
| Cyhoeddi a gweithredu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb sy’n addas i’r diben ac sy’n rhan allweddol o’n strategaeth ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol. | Ym mis Medi gwnaethom gyhoeddi ein Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2026, sy’n nodi cyfres newydd o amcanion ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr delfrydol a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn gynhwysol ac yn fewnol rydym am ddarparu diwylliant lle gall pawb ffynnu. |

# Adrodd ar ein perfformiad

## Dangosyddion perfformiad allweddol

10 Crynhoir isod y sefyllfa ar 30 Medi 2022 o ran cyrraedd y targedau ar gyfer ein 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2022-23.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad: | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol gofynnol. | 100% | 93% |
| 2 | Ar amser | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% | 82% |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau wedi'u hadolygu a gyflwynwyd yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Canfu'r asesiad fod 100% o'r sampl yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf | Dim ar gael eto[1] |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ystyried ein bod yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a gwarchod arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90%[2] | 95% |

1 Cwblheir adolygiadau yn ail hanner 2022-23.

2 Cynhaliwyd arolwg o Brif Swyddogion cyrff archwiliedig yn gynnar yn 2022, yn gofyn am eu barn ar werth ac effaith ein gwaith. Mae ein perfformiad o'i gymharu â dangosyddion 4 i 6 yn cael ei dynnu o ganlyniadau'r arolwg hwn.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad: | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Darparu mewnwele-diad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywe-dodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defny-ddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | O leiaf 80% | 95% |
| 6 | Ysgogi gwel-liant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 91% |
| 7 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn 2020-23 | £25.5 miliwn |
| 8 | Digwyddia-dau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywe-dodd fod ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefny-ddiol iawn. | O leiaf 90% | Ddim ar gael[3] |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwe-fan pan gyflawnwyd o leiaf un weithred, e.e. lawrlwytho adrod-diad, clicio ar fideo. | 35,000 bob blwyddyn | 20,794 |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar y cy-fryngau cymdeithasol, h.y. rhyn-gweithio â'n postiadau fel hoffi, rhoi sylw, neu ail-drydar/rhannu. | 3,000 bob blwyddyn | 1,385 |
| 11 | Rhannu'r hyn a ddysgwyd o waith arch-wilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn a ddysgom o waith archwilio i weithgorau polisïau allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gyn-helir yn allanol. | 50 bob blwyddyn | 39[4] |

3 Cynhaliodd y Gyfnewidfa Arfer Da ddau ddigwyddiad yn ystod y cyfnod hwn, roedd y ddau trwy wahoddiad i grwpiau dethol yn unig. Oherwydd natur y ddau ddigwyddiad ni ofynnwyd am adborth ffurfiol. Fodd bynnag dangosodd adborth anffurfiol fod y ddau yn ddefnyddiol.

4 Caiff y ffigur hwn ei wirio ddiwedd y flwyddyn er mwyn gwneud addasiadau, er enghraifft, i sicrhau bod presenoldeb arsylwyr fwy nag unwaith mewn grwpiau parhaus yn cael ei gofnodi fel un achos o bresenoldeb.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad: | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgorau mynegai ymgysylltu o arolwg blynyddol y staff sy’n gadarnhaol, mae’r arolwg wedi ei gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). | Sgôr ganolrifol o leiaf ar gyfer y CSPS diweddaraf | 64%[5] |
| 13 | Profiad cyflogeion | Canran sgorau profiad y cyflogeion sy’n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff. | O leiaf y sgôr ganolrifol ar gyfer themau diweddaraf y CSPS[6] | 1 allan o 10 |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gollwyd fesul aelod o staff bob blwyddyn. | Llai na chwe diwrnod | 5.95[7] |
| 15 | Mantolen ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o’i chymharu â’r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% o'r gyllideb | 0.7% |
| 16 | Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd | Gwerth arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ar draws y busnes. | £1.4 miliwn | £1.23 miliwn |

5 Daw’r canlyniad o arolwg Staff 2021, bydd arolwg 2022 yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Sgôr mynegai ymgysylltu ganolrifol y CSPS ar gyfer 2021 oedd 66%.

6 Themâu allweddol profiad cyflogeion CSPS yw: amcan a diben sefydliadol; arwain a rheoli newid; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; cyflog a buddion; diwylliant sefydliadol.

7 Cyfrifir ar sail blwyddyn dreigl.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad: | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau cyfwerth â CO2 | Gostyngiad o 20% ar linell sylfaen 2021-22 wedi ei hail gyfrifo[8] | 212 o dunnelli |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 100% |

8 Sy'n ystyried y Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r llinell sylfaen at ddibenion adrodd yn cwmpasu allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, sy'n cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau (ynni, dŵr, gwastraff, ac allyriadau ffynnon i danc), teithio a chymudo, a gweithio gartref.

Nid yw'r llinell sylfaen yn cynnwys allyriadau'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau. Oherwydd i ffactorau allyriadau ar gyfer cyfrifo allyriadau'r gadwyn gyflenwi ddod i ben yn 2011, mae'r ffactorau'n ansicr iawn. Gan fod y ffactorau a ddaeth i ben yn cael eu lluosi o'u cymharu â gwariant i gael amcangyfrifon allyriadau, dywed y Canllaw 'Nid yw'r dull cyfrifo hwn felly yn addas ar gyfer gosod targedau a mesur ymdrechion lleihau allyriadau.' Felly, dim ond er mwyn canolbwyntio ymdrechion i leihau allyriadau gyda chyflenwyr y gellir defnyddio'r amcangyfrifon hyn; gyda'r amcangyfrifon yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

# Ein Strategaeth 2022-27

11 Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom gyhoeddi Ein Strategaeth 2022-27. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri chonglfaen lle credwn fod angen i ni flaenoriaethu camau gweithredu os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r cynnydd hyd yma i gefnogi'r conglfeini hyn yn cael ei grynhoi isod.

| Conglfaen | Disgrifiad | Yr hyn a wnaethom |
|---|---|---|
| **Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel** | Yn ogystal â chyflawni ein gwaith archwilio statudol gorfodol ar amser, gan fodloni cost ac ansawdd, rydym yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig sy'n weddill ar faterion o'r pwysigrwydd strategol mwyaf. | • Ymgynghori ar ein rhaglen waith gyda phersbectif mwy hirdymor.<br>• Casglu adborth gan randdeiliaid allanol ar ein Strategaeth.<br>• Sefydlu ein Tîm Datblygu Ymchwil. |
| | Rydym yn defnyddio arferion proffesiynol gorau fel y nodwyd trwy God Ymarfer Archwilio AGW i sicrhau bod ein gwaith o'r safon uchaf. | • Bydd Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2022 yn cael ei gyhoeddi'n fuan.<br>• Dechreuwyd adolygu Cod Ymarfer Archwilio AGW. |
| | Mae ein gwaith yn ysgogi safonau uchel o ran defnyddio adnoddau cyhoeddus a llywodraethu sefydliadol. | • Cyhoeddi Adroddiadau Budd y Cyhoedd pan nodir methiannau sylweddol.<br>• Defnyddio blogiau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu canlyniadau adroddiadau mewn fformatau hygyrch. |

| Conglfaen | Disgrifiad | Yr hyn a wnaethom |
|---|---|---|
| **Dull gweithredu sy'n cael effaith sylweddol ac wedi'i dargedu o ran cyfathrebu a dylanwadu** | Mae ystod amrywiol o bobl yn cael mynediad at ein gwaith. | • Rhoi systemau ar waith i goladu ystadegau cyfathrebu a chynhyrchu offer data. |
| | Mae ein rhanddeiliaid yn cydnabod bod eu perthynas â staff Archwilio Cymru yn ychwanegu gwerth. | • Comisiynu ymgysylltiadau annibynnol â rhanddeiliaid ar effaith, gwerth a chyrhaeddiad ein gwaith. |
| | Mae ein rhanddeiliaid yn cyfeirio at enghreifftiau lle mae gwaith Archwilio Cymru wedi cefnogi eu sefydliadau i sicrhau canlyniadau gwell. | • Cael adborth gan randdeiliaid fel rhan o'n hymgysylltiad ar y strategaeth pum mlynedd.<br>• Cynllunio ymgysylltu yn y dyfodol â thrawstoriad ehangach o randdeiliaid. |
| **Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol** | Cyflawni strategaethau a chynlluniau allweddol yn llwyddiannus. | • Alinio blaenoriaethau Cynllun Blynyddol â'n Strategaeth 2022-27.<br>• Cyhoeddi cynlluniau busnes a diweddariadau cynnydd ar ein gwefan fewnol.<br>• Datblygu dull adrodd ar berfformiad integredig i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | Rydym yn cydweithio ac yn amlygu diwylliant 'Un Archwilio Cymru'. | • Cynnal Adolygiad Canol Blwyddyn yn erbyn ymateb rheolwyr i ganlyniadau ein Harolwg Pobl diwethaf.<br>• Cynhaliodd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg archwiliad dwfn o forâl staff<br>• Lansio cylchlythyr newydd ein staff – 'POBL'<br>• Hyrwyddo ein Strategaeth newydd yn fewnol gyda'r brand 'Un Archwilio Cymru ydym ni'. |

| Conglfaen | Disgrifiad | Yr hyn a wnaethom |
|---|---|---|
| | Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llywio ymddygiad a phenderfyniadau. | • Parhau i adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy a chanllawiau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhenderfyniadau'r Bwrdd a ddefnyddir gan Fwrdd Archwilio Cymru.<br>• Cymhwyso'r egwyddor wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau allweddol, gan gynnwys ein trefniadau teithio a chynhaliaeth diwygiedig a'n hanghenion o ran swyddfeydd sy'n esblygu. |

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[9] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[10] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 o gwmnïau Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 o Gomisiynwyr, Arolygiaethau a Rheoleiddwyr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[11] |
| 22 o Gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | ✓ | ✓ | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| Cydbwyllgorau Corfforaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Bargeinion twf dinas-ranbarth | ✓ | ✓ | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cydbwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[12] | | |

9 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

10 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae’r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o ganfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws sawl corff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda’r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae’r allbynnau o lawer o’r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau’n rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, ein cyd-destun darparu adnoddau ni ein hunain a chapasiti’r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni. Byddwn yn dod â gwaith newydd ychwanegol i’n rhaglen yn ystod gweddill 2022-23.

Yn ogystal â’r gwaith sy’n mynd rhagddo sydd wedi’i restru, gall allbynnau eraill hefyd ddod i’r amlwg yn y gwaith yr ydym yn ei wneud mewn ymateb i faterion a godwyd gyda ni. Er enghraifft, rydym wedi bod yn bwrw ymlaen â rhywfaint o waith i ddeall yn llawnach yr amgylchiadau a arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn prynu Fferm Gilestone (Tal-y-bont ar Wysg) a byddwn yn penderfynu ar y ffurf a’r cynnwys priodol ar gyfer unrhyw allbwn maes o law. Gall gwaith archwilio lleol hefyd arwain at allbynnau cryno eraill, er enghraifft o’n gwaith adolygu ‘system gyfan’ parhaus ar ofal heb ei drefnu.

| **Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd yn sylweddol ar 30 Medi 2022.** | |
|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Gofal heb ei drefnu – offeryn data a blog |
| Cwricwlwm newydd i Gymru | Mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio yng Nghymru |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru - diweddariad | Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer PAPAC |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 – Adroddiad Tystiolaeth | Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at fis Mawrth 2022 |
| Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant | Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru |
| Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? | Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth |
| Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y PAPAC | |

| **Gwaith sydd ar y gweill neu a fydd yn dechrau'n fuan** | |
|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol (adroddiad cryno) | Seibergadernid |
| Anghenion cymhleth a thlodi – yr her i lywodraeth leol | Rheoli perygl llifogydd |
| Gwasanaethau orthopedig | Llywodraethu ansawdd y GIG |
| Mentrau cymdeithasol | Seilwaith band eang/cynhwysiant digidol |
| Meithrin cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth | Cyd-bwyllgorau Corfforedig |
| Diogelwch adeiladau | Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – adfywio tir llwyd |
| Tai fforddiadwy | Llywodraethu/goruchwylio Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol |

# 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) wrth iddo ystyried defnyddio adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith wyth cyfarfod PAPAC, gan gynnwys ymchwiliad ac adroddiad y Pwyllgor ei hun ar Gomisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y rhan fwyaf o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd a amlinellir yn **Atodiad 2**.

Ym mis Mai 2022, cyfarfu'r Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'r tri Chyfarwyddwr Gweithredol ag aelodau o'r Pwyllgor Cyllid mewn sesiwn breifat i ddarparu sesiwn friffio ar ddatblygiad ein strategaeth pum mlynedd, gan gynnwys cynigion ar gyfer newid cyllid posibl rhwng ffioedd ac amcangyfrif, er mwyn cefnogi'n well y gwaith o gyflawni gwaith archwilio trawsbynciol a thema. Roedd y briff hefyd yn cynnwys cynlluniau i gyflwyno dau amcangyfrif atodol - y cyntaf i wneud yr ad-daliad cyntaf mewn cysylltiad â chyllid a ddarparwyd yn flaenorol i gefnogi'r broses o brynu'r lwfans trafnidiaeth a dynnwyd yn ôl oddi wrth staff, a'r ail i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth ystad gan gynnwys symud swyddfa ar ôl i'r brydles ddod i ben ar ein swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2023. Wedi hynny, fe wnaethom ddarparu llythyr manwl yn nodi'r achos busnes ar gyfer symud y swyddfa ym mis Awst 2022, ac yn dilyn hynny bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn cefnogi ein hamcangyfrif atodol ffurfiol ar gyfer ariannu'r gwaith o symud y swyddfa ym mis Medi.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thimau clercio pwyllgorau eraill y Senedd i drafod ein gwaith pan fo hyn o ddiddordeb ar y cyd, gan gynnwys er enghraifft y Cwricwlwm newydd i Gymru (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg) a Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio (Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd wedi cydnabod bod ein mewnbwn i'w ymchwiliad ac adroddiad ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan adeiladu ar ein gwaith blaenorol ar y pynciau hyn, wedi chwarae rhan hanfodol wrth lywio meddylfryd y Pwyllgor ei hun.

Rydym hefyd wedi ymateb yn ffurfiol i bum ymgynghoriad a lansiwyd gan y Senedd neu ei bwyllgorau, i rannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith archwilio; un enghraifft yw ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 'Datgarboneiddio tai: datgarboneiddio'r sector tai preifat'.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gyfnod yr adroddiad interim, rydym wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff a archwilir gennym, cynhelir rhai o'r rhain yn bersonol, tra bod llawer wedi parhau i ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fideo.

Rydym yn dal i friffio a darparu adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â rhoi cymorth i gryfhau effeithiolrwydd llywodraethu.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch gwarchod arian ac asedau cyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom 33 eitem o ohebiaeth ac fe wnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur, a phroffesiynol. Hefyd, fe gysylltodd pum unigolyn â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022 i ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galdwadau ffôn yn y Saesneg a'r Gymraeg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru